


Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin Carmarthenshire Biodiversity Partnership

Yr Hyn a Gyflawnwyd yn 2013 /
2013 Achievements



- Mae **Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin** yn bartneriaeth o gyrrff sy'n ymwneud â gwarchod bywyd gwylt a chynefinoedd y sir.
- Hwylosir y Bartneriaeth gan Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor a chaiff y Bartneriaeth grant blynnyddol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Mae amgylchedd naturiol Cymru yn cefnogi amrywiaeth enfawr o fywyd gwylt. Mae amgylchedd naturiol iach yn rhan hanfodol o gymdeithas gynaliadwy a chadarn yng Nghymru.
- Mae amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin o bwys i bob un ohonom mewn sawl ffordd wahanol. Mae bioamrywiaeth yn rhoi i ni lawer o'r pethau sy'n cynnal ein bywydau, drwy nifer o wasanaethau pwysig:
 - ♦ Darparu – mae'n darparu bwyd (gwenith, pysgod, ac ati), tanwydd (pren, glo), dŵr ffres, meddyginaeth, tecstilau.
 - ♦ Rheoleiddio - cael gwared ar lygryddion, rheoli llifogydd, amsugno carbon deuocsi (nwyon tŷ gwydr), atal erydiad.
 - ♦ Diwylliannol - tirweddau hardd, ymdeimlad o le, hamdden a thwristiaeth, ysbrydoliaeth ac ymchwiliadau, boed gan blant ysgol neu wyddonwyr.
 - ♦ Cynnal – mae'n cynnal priddoedd a thyfiant planhigion.
- Crynodeb yw hwn o'r hyn a gyflawnwyd gan y partneriaid yn 2013, yn aml drwy gydweithio i warchod ac i wella'r ystod amrywiol o gynefinoedd a rhywogaethau sydd yn Sir Gaerfyrddin.
- The **Carmarthenshire Biodiversity Partnership** is a partnership of organisations concerned with the conservation of the county's wildlife and habitats.
- The Partnership is facilitated by the Council's Biodiversity Officer and receives annual grant funding from Natural Resources Wales.
- The natural environment of Wales supports the huge variety the wildlife that lives here. A healthy natural environment is a vital part of a sustainable and robust society in Wales.
- Carmarthenshire's natural environment matters to us all - in many different ways. Biodiversity provides us with many of the things that sustain our lives, through a number of important services:
 - ♦ *Provisioning* - providing food (wheat, fish, etc.), fuel (timber, coal), fresh water, medicine, textiles.
 - ♦ *Regulating* - disposing of pollutants, controlling floods, absorbing carbon dioxide (greenhouse gases), stopping erosion.
 - ♦ *Cultural* – beautiful landscapes, a sense of place, recreation and tourism, inspiration and investigation from schoolchildren to scientists.
 - ♦ *Supporting* - maintaining soils and plant growth.
- This is a summary of the achievements made by the partners in 2013, often working together, to conserve and enhance Carmarthenshire's diverse range of habitats and species.

*Pwysigrwyd Bioamrywiaeth – ni allwn fyw hebddi!
Biodiversity matters – we can't live without it!*



Mae gwirfoddolwyr o Gymdeithas Pysgota Amatur Sir Gaerfyddin wedi bod yn gweithio'n ddyfal er mwyn ceisio gwella ansawdd dŵr Nant Crychau, sef llednant bwysig yn cynnwys eog a brithyll o'r Gwili, ger Caerfyddin. Dros y 18 mis diwethaf maent wedi clirio pob rhwystr er mwyn helpu'r pysgod i gyrraedd y silfeydd. Maent hefyd wedi cydweithio â thirfeddianwyr er mwyn creu oddeutu 2 filltir o stribedi byffer a safleoedd penodedig lle y gall gwartheg gyrraedd y ffrydai. Mae'r ffaith bod llai o wartheg yn sathru yn golygu bod llai o silt ac mae pysgod eisoes yn dychwelyd yno. Mae menter Pysgota Gwyllt Cymru Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth yr Amgylchedd Sir Gaerfyddin wedi darparu cyllid. Gall gwirfoddolwyr brwd wneud gwahaniaeth!

Volunteers in the Carmarthenshire Amateur Angling Association have been working to improve the water quality of the Nant Crychau, an important salmon and trout spawning tributary of the Gwili, near Carmarthen. Over the last 18 months they have cleared obstructions to help fish reach the spawning grounds and have worked with landowners resulting in approximately 2 miles of fenced buffer strips and dedicated sites for cattle to access the streams. Reduced poaching by cattle means less siltation and already fish are returning.

Funding has been obtained from the WG Wild Fishing Wales initiative and the Carmarthenshire Environment Partnership.

Volunteers with a passion can make a difference!



Mae'r Cyngor wedi derbyn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i ddiogelu a gwella cynefinoedd pwysig corsydd ar chwe thir comin y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae cynefinoedd gwlyptir fel y rhain yn bwysig – maent yn storio dŵr, yn cadw carbon a hefyd yn creu cynefinoedd ar gyfer gwahanol blanhigion ac anifeiliaid. Mae'r tiroedd comin hyn wedi bod yn rhan o'n tirwedd ers canriffoedd ac mae'r prosiect yn ceisio eu hadfer. Bydd rhwystrau Tân, gwaith clirio prysg, cynlluniau rheoli ac asesiadau o ddyfnder ac ansawdd y mawn yn helpu i sicrhau bod y prosiect, gyda chymorth y cominwyr, yn sefydlu trefniadau rheoli cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

The Council has received WG grant funding to help protect and enhance important bog habitat on six commons that it is responsible for. Wetland habitats such as these are important – they store water and trap carbon as well as provide habitats for a range plants and animals. These commons have been part of our landscape for centuries and the project aims help restore them to a favourable condition. Firebreaks, scrub clearance, management plans and assessment of the depth and quality of the peat will help the project to work with the commoners towards sustainable management in the future.

Hoffech chi ddysgu rhagor am fywyd gwyllt Sir Gâr? Ceir rhywbeth at ddant pawb! Mae Sir Gaerfyddin yn ffodus iawn gan fod ganddi grwpiau amrywiol iawn a all gynorthwyo pobl i ddatblygu diddordebau a sgiliau adnabod mewn perthynas â grwpiau penodol o fywyd gwyllt – adar, gwyfynod, gloynnod byw, ffynigi, ystlumod, amffibiaid ac ymlusgiaid a phlanhigion. Caiff y grwpiau hyn eu cynnal gan bobl frwd sy'n awyddus iawn i rannu eu gwybodaeth. Mae gan y rhan fwyaf o'r grwpiau hyn wefannau/blogiau ynghyd â digwyddiadau y gall pobl eu mynychu yn ystod y flwyddyn – cewch ragor o fanylion ar dudalennau [Cyfeirlyfr Bioamrywiaeth](#) gwefan y cyngor.

Want to find out more about Carmarthenshire's wildlife? Most interests are catered for in the county! We are fortunate that Carmarthenshire has a range of groups that can help people develop interests and identification skills in specific groups of wildlife, e.g. birds, moths, butterflies, fungi, bats, amphibians and reptiles and plants. The groups are run by enthusiasts who are happy to share their knowledge. Most of these groups have websites/blogs and events that people can attend during the year – find out more in the [Biodiversity Directory](#) on the council's web pages.

Mae'r Cyngor, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Chymdeithas Fotanegol Prydain ac Iwerddon wedi cydweithio er mwyn helpu planhigyn prin yn Sir Gaerfyrddin sydd ond wedi goroesi ar un safle yn y Sir, ac mewn llai na 30 ym Mhrydain gyfan. Cafodd hadau Penigan y porfeydd (*Dianthus armeria*) eu cludo, yn unol ag amodau trwydded, i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru er mwyn eu llosgogi'n ofalus. Y nod yw tyfu rhagor o'r planhigyn hwn. Gallai'r hadau hyn gael eu defnyddio ar gyfer ailgyflwyno'r planhigyn yn y gwyllt os caiff ei golli ar y safle presennol neu gallai gael ei gyflwyno i safleoedd addas lle y byddai'n cael ei reoli'n briodol ar gyfer y dyfodol.

The Council, National Botanic Garden of Wales and the Botanical Society of Britain and Ireland have worked together to help a rare plant in Carmarthenshire that survives at only one site in the county and less than 30 in Britain as a whole. Under licence, seeds of the protected Deptford Pink (*Dianthus armeria*) were taken to the NBGW where they will be carefully propagated to establish more plants. These could be used to reintroduce into the wild should the species be lost at its existing site or introduced to suitable sites where future management can be assured.



Mae QuinetiQ, sy'n rheoli safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mhentywyn, wedi bod yn gweithio'n ddyfal er mwyn gwarchod a gwella bywyd gwylt y safle. Er mwyn helpu i adfer cynefinoedd pwysig twyni tywod mae 9.5 Ha o fôr-rafnwydden wedi'i waredu ac mae llacau twyni gwlyb wedi'u creu – dyma gynefin tegeiran y fign, sy'n flodyn prin iawn. Ceir dyfrgnw a llygod dŵr ym Mhwll Witchett – gyda chymorth cwch arbenigol sy'n torri cyrs a thîm gan Cyfoeth Naturiol Cymru cafodd y cyrs eu torri yn ôl dros 3 diwrnod er mwyn creu ardal fwy agored o ddŵr a fyddai'n fwy ffafriol i fywyd gwylt. Mae QuinetiQ yn cydweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cadwraeth a phorwyr lleol er mwyn ceisio sicrhau bod bywyd gwylt yn ffynnu ar y safle arfordirol pwysig hwn. www.pendine.qinetiq.com

QuinetiQ, who manages the MOD site at Pendine, has been working hard to conserve and enhance the wildlife on site. To help restore important sand dune habitat 9.5 Ha of sea buckthorn has been removed and wet 'dune slacks' created – this is the habitat of the very rare fen orchid. Witchett Pool hosts otter and water voles – with the help of a specialist reed cutting boat and team provided by NRW the reeds were cut back over 3 days to create more open water to benefit wildlife. QuinetiQ works in partnership with conservation organizations and local graziers to strive to ensure that wildlife thrives at this important coastal site. www.pendine.qinetiq.com.




Mae'r tudalennau bioamrywiaeth ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'u diweddar. Cewch ragor o wybodaeth am bioamrywiaeth Sir Gâr, mannau i ymweld â hwy, sut i helpu bioamrywiaeth, y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol a'r holl 'newyddion diweddaraf' ar y dudalen gartref.

The [biodiversity web pages](#) have been updated on the Carmarthenshire Council website. Find out about Carmarthenshire's biodiversity, places to visit, how to help biodiversity, the local Biodiversity Action Plan and look out for all the 'latest news' on the home page.



Mae'r Cyngor wedi cyflogi swyddog prosiect sy'n cydweithio â thirfeddianwyr lleol yn ardal Cross Hands er mwyn adfer a rheoli ardaloedd o laswelltir corsiog, sy'n gynefin magu delfrydol ar gyfer y glöyn byw prin sydd wedi'i ddiogelu – britheg y gors. Mae ardal Cross Hands yn ardal sydd wedi'i datblygu'n helaeth ac mae hyn wedi arwain at golli a gwasgaru cynefinoedd pwysig. Er mwyn sicrhau bod y rhywogaeth hon yn goroesi yn yr hirdymor, bydd cyllid o waith datblygu yn yr ardal yn ceisio sicrhau bod digon o laswelltir corsiog yn ardal Cross Hands yn cael ei reoli ar gyfer britheg y gors. Bydd hyn hefyd o fudd i rywogaethau eraill y mae'r cynefinoedd hyn yn eu cefnogi. Bydd y prosiect arloesol hwn yn sicrhau y gall busnesau a hefyd fywyd gwylt ffynnu yn yr ardal.

The Council has employed a project officer to work with local landowners in the Cross Hands area to restore and manage areas of marshy grassland, the favoured breeding habitat for the scarce and protected marsh fritillary butterfly. Cross Hands is a prime development area and in the past this has resulted in the loss and fragmentation of important habitat. To ensure the long-term survival of this species, funding from development in the area will aim to ensure that enough marshy grassland in the Cross Hands area is managed for the marsh fritillary (and benefit other species this habitats support). This innovative project will ensure that business *and* wildlife can thrive in the area.



Mae Llanelli yn un o 18 safle allweddol o fewn y Deyrnas Unedig ar gyfer y llygoden ddŵr, sydd bellach yn anifail mewn perygl. Mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflogi swyddog prosiect. Bydd y swyddog yn treulio amser yn cysylltu â thirfeddianwyr yn yr ardal, yn nodi cofnodion newydd ar gyfer llygod dŵr ac yn creu rhestr o safleoedd sy'n bwysig ar gyfer y rhywogaeth ac ar gyfer cysylltedd cynefinoedd. Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio ar gyfer llywio'r modd y caiff cyllid ei ddefnyddio yn y dyfodol. Mae prosiect magu dan gaethiwed hefyd yn mynd rhagddo lle y mae llygod ifanc o dan bwysau wedi'u dal er mwyn eu cynnal dros y gaeaf fel y gallant fagu'r flwyddyn nesaf. Caiff y llygod hyn eu hailgyflwyno mewn cynefinoedd addas ar wahanol safleoedd yn Llanelli. Gall cynefinoedd da o lygod dŵr hefyd ein helpu i atal llifogydd a storio dŵr – byddwn ni a hefyd y llygod dŵr ar ein hennill!

Llanelli is one of 18 key sites in the UK for the endangered water vole. The Wildlife Trust of South and West Wales has received funding from WG to employ a project officer who

will spend time liaising with landowners in the area, identify new records for water vole, build an inventory of sites important for the species and for habitat connectivity. This information will be used to help to inform future funding. In addition a captive-breeding project is underway where underweight juveniles have been trapped to be supported through the winter and then to breed next year. These will be reintroduced into suitable habitat elsewhere in Llanelli. Good water vole habitat can also help us with flood prevention and water storage – what is good for water voles is good for us!



Mae angen peillwyr ar bob un o honom! Mae gwenyn yn rhoi mîl i ni ac maent yn peillio llawer iawn o'r ffrwythau a'r llyisiau yr ydym yn eu mwynhau. Yn anffodus mae gwenyn mewn perygl ac mae angen i ni eu helpu drwy ganfod cynefinoedd addas ar eu cyfer. Mae adran Gwasanaethau Stryd y Cyngor wedi bod yn ystyried sut y gall gynorthwyo bywyd gwylt drwy leihau'r gwaith o dorri rhai o'r ymylon mwyaf llydan a mannau agored cyhoeddus yn ardal Llanelli. Ymylon ar hyd ffordd yr arfodir yn llawn y tegeiran gwenynog prin – perffaith!

We all need pollinators! Bees provide us with honey and help pollinate lots of fruit and vegetables that we enjoy. They are in trouble though and we need to help them by providing suitable habitat. The Council's Streetscene department have been looking how they can help wildlife by reducing the cutting of some of the wider verges and areas of public open space in the Llanelli area. This year verges along the coast road bloomed with the uncommon bee orchid – how appropriate!




Ym mis Chwefror 2013 ffurfiodd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru Grŵp Gwirfoddolwyr Cofnodi Bywyd Gwylt. Mae'r grŵp hwn, sy'n cynnwys rhwng 12 a 15 o wirfoddolwyr rheolaidd, yn cyfarfod bob bore Mawrth ac maent wedi ychwanegu'n sylweddol at wybodaeth yr Ardd am fioamrywiaeth ar y safle. Mae hefyd wedi creu dros 100 cofnod newydd o rywogaethau. Mae hyn yn cynnwys rhai cofnodion ffyngaid newydd ar gyfer De Cymru a Sir Gâr a hefyd, bresenoldeb dyfrgwn, ffwl bartiaid a draenogod. Mae'r gwirfoddolwyr hefyd wedi cynorthwyo llawer iawn â digwyddiadau ar gyfer ennyn diddordeb y cyhoedd, gan gynnwys Diwrnod Ffngau Cymru a Diwrnod Blodau Gwylt Cymru. Cewch ragor o wybodaeth am waith ardderchog y gwirfoddolwyr brwd hyn drwy ddarllen eu blogiau wythnosol, sydd ar wefan yr Ardd Fotaneg.

In February 2013, the National Botanic Garden of Wales formed a Volunteer Wildlife Recording Group. Meeting every Tuesday morning, this group of 12–15 regular volunteers has significantly added to the Garden's knowledge of biodiversity on its site and generated over 100 new species records. This includes some new fungal records for south Wales and Carmarthenshire and also, the presence of otter, polecat and hedgehog. The volunteers have also provided great support for public engagement events such as Wales Fungus Day and Wales Wild Flower Day. Find out more about the wonderful work of these enthusiastic volunteers by reading their weekly blogs, all viewable on the Garden's website!



Mae'r haint coed llarwydd a achosir gan *Phytophthora ramorum* yn ymledu ar hyn o bryd mewn sawl man yn Sir Gaerfyrddin. Bu'n rhaid i berchnogion rhai coetiroedd gwympo coed llarwydd oedd wedi eu heintio tra bo eraill yn bwriadu cwympo eu coed cyn iddynt gael eu heintio. Mae dau Swyddog Coed Cymru y Cyngor Sir wedi bod yn rhoi cyngor a chymorth i berchnogion llecynnau bychain o goed llarwydd lle mae bwriad i ailblannu coed llydanddail brodorol, yn enwedig coetiroedd hynafol lle plannwyd coed llarwydd ond lle mae cyfle bellach i'w hadfer yn goetiroedd brodorol. Fel arfer mae'r cymorth hwn yn cynnwys trwydded cwympo coed, a chais wedyn i gynllun Rheoli Coetiroedd Glastir am grant i ailblannu.

The larch disease caused by *Phytophthora ramorum* is now spreading in several parts of Carmarthenshire. Some woodland owners have had to fell infected larch whilst others are planning to fell areas before they become diseased. The County Council's two Coed Cymru Officers have been giving advice and support to owners of small areas of larch where the aim is to replant with native broadleaves - and particularly on ancient woodland sites planted with larch where there is now an opportunity to restore these sites to native woodland. This help usually involves a felling licence application, followed by an application to the Glastir Woodland Management scheme for a grant to replant the woodland.



Y Cyngor gyda chymorth oddiwrth Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Gâr ac mewn da gan Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, mae gan y Cyngor gynllun grant Tirwedd a Threftadaeth i gynorthwyo perchenogion tir lleol i wneud gwaith gwerthfawr o ran rheoli a chreu cynefinoedd, mewn perthynas â chynefinoedd a rywogaethau y nodwyd eu bod yn flaenoriaethau lleol dan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin. Gyda chymorth swyddog prosiect, cwblhawyd deuddeg cynllun eleni, gan gynnwys adfer a phlannu perthi, rheoli glaswelltiroedd sy'n gyforiog o rywogaethau fel y gellir ailgychwyn pori, a chreu coedwigoedd a pherllannau. Yn ogystal, mae'r planhigyn ymledol, Jac y Neidiwr (Himalayan Balsam), wedi'i reoli a chodwyd blychau ar gyfer adar a thylluanod gwynion. Yn sgil yr holl waith rheoli hwn, gwelir buddion gwirioneddol yn lleol.

The Council, with assistance from the Rural Development Plan for Wales 2007-2013, the Welsh Government, Natural Resources Wales, Carmarthenshire County Council and in kind by the National Trust, has a Landscape and Heritage grant scheme to support local landowners to undertake valuable habitat management and creation for habitats and species identified as local priorities under the Carmarthenshire Local Biodiversity Action Plan. Supported by a project officer this year 14 schemes have been completed with hedges restored and planted, species-rich grassland managed so that grazing can be re-instated and woodland and orchards created. In addition the invasive Himalayan balsam has been controlled and barn owl and bird boxes erected. Cumulatively all this management will have real benefits locally.



Mae Prosiect Tirwedd y Dyfodol yn Ardal y Tair Afon, sy'n cael ei gynnal gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), wedi llunio adroddiad cychwynnol i'w drafod â phartneriaid allweddol ddechrau 2014. Hoelia'r adroddiad ei sylw pennaf ar ddarpar brosiectau ym maes rheoli, gwella, a chreu gwlyptiroedd, a hynny ym mhen isaf Cwm Gwendraeth ger Cydweli ac yn ardal Trwyn Ginst i'r de o Lacharn. Caiff dewisiadau eraill eu hystyried megis cydweithio â phartneriaid ar fawnogydd, porfeydd rhos, a gwyrddfannau trefol yn ne-ddwyrain Sir Gaerfyrddin. Mae'r RSPB yn gobeithio gweithio'n agos gyda chyrrf sy'n bartneriaid a chymunedau ar y prosiectau hyn.

The RSPB Three Rivers Futurescapes project has produced an initial report, for discussion with key partners in early 2014. The report largely focuses on possible wetland management, enhancement and creation projects in the Lower Gwendraeth area near Kidwelly and in the Ginst Point area south of Laugharne. Other options, such as collaborative work with partners on peatland sites, 'rhos pastures' and urban greenspace in south-east Carmarthenshire, are being considered. The RSPB hopes to work closely with partner organisations and communities on these projects.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Isabel Macho: IMacho@sirgar.gov.uk

For more information contact Isabel Macho: IMacho@carmarthenshire.gov.uk 01558 825390

